**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 14 Mawrth 2022 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L James | A H Stevens |
| M Thomas | | |

**Aelodau'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| R Button | J France | G Howe |
| P Jenkins | H Osborn | B Parry |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child
Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): S Heard a/ac D P Tucker

---

**27 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**28 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

**29 Trafodaeth - Tir Comin Gwyr, Anafiadau Ffyrdd Da Byw.**

Tynnodd Roger Button sylw at nifer y damweiniau sy'n ymwneud â da byw ar Dir Comin Gŵyr, i'w trafod.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Y nifer uchel o anifeiliaid a laddwyd ar ffyrdd y tir comin a'r angen o bosib i gyflwyno ffensys a lleihau cyflymder traffig;

- Yr arwyddion cyflymder a godwyd gan wirfoddolwyr yn cael eu difrodi gan stormydd diweddar;
- Cyflwyno ffensys ffisegol ac electronig i atal da byw rhag crwydro ar y ffyrdd;
- Grŵp Trawsbleidiol sy'n trafod materion sy'n ymwneud â'r tir comin, sydd hefyd yn cael ei fynychu gan yr Heddlu, Cominwyr, Grŵp Diogelwch Tir Comin Gŵyr, a sut roedd cyflymder y traffig wedi gostwng o 60 mya i 40 mya;
- A yw'n gyfreithlon i osod ffensys o amgylch rhannau o dir comin, sut y byddai pobl leol yn ymateb a'r anhawster o ran gosod camerâu cyflymder Gan Bwyll mewn mannau priodol ar dir comin;
- Cydnabod mai cyflymder traffig oedd y ffactor cyffredin a'i fod yn fater diogelwch yr oedd angen mynd i'r afael ag ef;
- Casglu ystadegau perthnasol ynghylch damweiniau sy'n ymwneud â da byw - lladdwyd dros 100 o anifeiliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a faint o ddamweiniau nad oeddent yn cael eu hadrodd i'r Heddlu?;
- Yr angen i dda byw aros ar dir comin er mwyn rheoli'r tir;
- Y datrysiadau amrywiol a ystyriwyd a sut yr oedd ardaloedd eraill yn profi sefyllfaoedd tebyg;
- Yr anawsterau wrth gael y Fan Cyflymder Gan Bwyll i fynd i ardaloedd ym Mhenrhyn Gŵyr, e.e. y tu allan i ysgolion;
- Colli da byw a'r costau i ffermwyr / berchnogion;
- Sut yr oedd ffyrdd tir comin yn annog gyrru cyflym a'r angen posib i edrych ar atebion radical;
- Faint o'r cerbydau sy'n goryrru oedd yn cael eu gyrru gan breswylwyr Gŵyr.

Cynigiodd Hamish Osborn ei wasanaethau i helpu i ddod o hyd i atebion yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y trafodaethau.

**30 Cais am Ddyfarniad Cymuned Awyr Dywyll - Diweddariad.**

Darparodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, adroddiad am y diweddaraf am y Cais am Ddyfarniad Cymuned Awyr Dywyll.

Cyfeiriwyd at ddiweddariad blaenorol a ddarparwyd ym mis Mawrth 2021 ac eglurwyd bod y 'Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr' bellach wedi'u cymeradwyo fel Canllawiau Cynllunio Atodol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Abertawe. Gallai tîm AoHNE Gŵyr bellach gwblhau'r cais Cymuned Awyr Dywyll Ryngwladol i'r Gymdeithas Awyr Gwyllt Ryngwladol (IDA). Roedd y gweithgareddau perthnasol ers Blwyddyn Newydd 2022 yn cynnwys: -

- Trafodaethau o'r newydd gyda chynrychiolwyr IDA ynghylch cwblhau'r cais yn erbyn eu Canllawiau diwygiedig ar gyfer Cymunedau Awyr Dywyll Rhyngwladol 2018.
- Cwblhau'r gwaith monitro ansawdd awyr blynyddol, a wnaed ar ddiwedd mis Ionawr, gyda gwaith maes pellach ar gyfer dechrau mis Mawrth. Nid oedd yr adroddiad monitro wedi'i gwblhau eto.

- Cyfranogiad yn ystod Wythnos Awyr Dywyll gyntaf Cymru (19-27 Chwefror), gyda holl Barciau Cenedlaethol Cymru a'r AoHNE yn cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau ar-lein a byw.
- Rhaglen barhaus o drawsnewid goleuadau stryd AoHNE Gŵyr yn unedau LED sy'n gyfeillgar i Awyr Dywyll, gan dîm Goleuadau Priffyrdd Cyngor Abertawe.

Byddai Tîm AoHNE Gŵyr yn cwblhau'r gwaith o ddrafftio'r cais terfynol gyda'r gweithgor i'w gyflwyno i'r IDA cyn gynted â phosib.  Byddai diweddariad pellach yn ystod Fforwm Blynyddol AoHNE Gŵyr.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Pryder ynghylch effaith bosib dau ddigwyddiad presenoldeb mawr arfaethedig ar Benrhyn Gŵyr, sut yr oeddent yn ddau ddigwyddiad ar wahân a manylion y trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r trefnwyr;
- Yr anawsterau o ran rheoli goleuadau ar dai preifat / eiddo preifat a sut mai addysg oedd y dull a ffefrir ar gyfer delio â materion.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y cyflwyniad.

**31 Adroddiad am Grantiau AoHNE 2022/23.**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r prif grantiau presennol sy'n cefnogi'r AoHNE a rhagolwg o'r flwyddyn ariannol nesaf.

Darparwyd manylion y grantiau canlynol: -

- Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) – Amlinellwyd yr hanes a'r cefndir. Esboniwyd bod y grant hwn wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a bod y gyllideb o £100,000 yn 2020/21 a 2021/22 wedi'i gwario/hymrwymo'n llawn.

  Yn amodol ar gwblhau / gadarnhau cyllideb Llywodraeth Cymru, rhagwelwyd y byddai'r CDC yn parhau i 2022/23, er na chytunwyd ar unrhyw ffigur.

- Grant Partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – Darparwyd yr hanes a'r cefndir.  Nodwyd bod y grant hwn fel arfer yn rhan o gynnig aml-flwyddyn, er bod y grant presennol yn gynnig un flwyddyn o tua £68,000 ynghyd â chyllid cyfalaf pellach (£40,000) ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth penodol drwy Gronfa Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Cyfoeth Naturiol Cymru.

  Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda CNC ynglŷn â'u cefnogaeth i'r AoHNE.  Unwaith eto, byddai unrhyw gynnig yn amodol ar gadarnhad o gyllidebau Llywodraeth Cymru, ond deallwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried cynnig rhaglen ddwy flynedd.

- Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLlC) - Roedd y rhaglen buddsoddi cyfalaf TCLlC ar draws wyth Tirwedd Ddynodedig Cymru yn sicrhau y gallent gyfrannu at amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. Manylwyd ar y pedair prif raglen.

Cyflwynwyd cynigion prosiect, gan gynnwys prosiectau cydweithredol gan y tirweddau dynodedig a dyrannwyd arian gan Lywodraeth Cymru drwy bartneriaeth Tirweddau Cymru. £185,000 oedd cyfanswm grant TCLlC AoHNE Gŵyr yn 2020/21 a £225,000 yn 2021/22.

Yn amodol ar gwblhau / gadarnhau cyllideb Llywodraeth Cymru, roeddem yn rhagweld y byddai'r TCLlC yn parhau i 2022/23 ac y gallai fod yn ddyraniad aml-flwyddyn, er na chytunwyd ar ffigur cyllideb.

- Grant Refeniw Llywodraeth Cymru - Cynigiodd Llywodraeth Cymru grant refeniw untro o £75,000 ar gyfer AoHNE Gŵyr ar gyfer 2021/22. Roedd y grant wedi galluogi ar gyfer recriwtio Swyddog Prosiect Cymunedau a Natur AoHNE Gŵyr ar sail cyfnod penodol (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022).

  Deallwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu cyllid refeniw pellach ar gyfer pob AoHNE yng Nghymru yn 2022-23, gyda dyraniadau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf. Diben y dyraniad oedd mynd i'r afael â materion capasiti o fewn timau AoHNE o ran cynyddu'r gwaith ar fioamrywiaeth, datgarboneiddio, cadernid cymunedol a thwristiaeth gynaliadwy.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**32 Diweddariad yr Is-gr?p Twristiaeth.**

Darparodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru am gynnydd yr Is-grŵp Twristiaeth.

Dywedwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2021 y "nodwyd bod Gweithgor Pwysau Twristiaeth AoHNE Gŵyr wedi cyfarfod ar gyfer trafodaethau rhagarweiniol ar 22 Tachwedd 2021. Byddai Swyddogion yn cysylltu â rhanddeiliaid i ddarparu enghreifftiau ar gyfer cofnod gweithredu a byddai'r gweithgor yn cyfarfod i drafod y canfyddiadau yn y flwyddyn newydd."

Ychwanegwyd bod yr Is-grŵp wedi cyfarfod ar 31 Ionawr 2022 ac wedi dechrau paratoi'r cofnod materion i'w ddatblygu a'i gwblhau ymhellach. Roedd y prif faterion a nodwyd yn cynnwys:

- Parcio dros nos
- Rheoli digwyddiadau mawr
- Cŵn sydd dan reolaeth wael
- Lefelau uchel o draffig
- Diogelwch y briffordd

Ychwanegodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr hefyd y byddai'n parhau i weithio ar y log materion gydag aelodau'r Is-grŵp ac y byddai'n adrodd yn ôl i Bartneriaeth yr AoHNE maes o law.

Cynigiodd Hamish Osborn, Cyfoeth Naturiol Cymru ei gefnogaeth i'r Is-grŵp i gynorthwyo gyda'r allbynnau.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

**33 Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC).**

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad ariannol cryno y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) 'er gwybodaeth'.

Amlygwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai cyllideb y CDC ar gyfer 2022/22 fyddai £100,000.

Roedd 15 o brosiectau wedi'u cymeradwyo, gyda £100,000 wedi'i neilltuo, gan neilltuo'r arian yn llawn ar gyfer 2021/22.

Roedd ffigur y Cronfeydd Neilltuedig yn cynnwys ffi reoli DASA sef £10,000.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £100,000 |
| Cronfeydd Neilltuedig | £100,000 |
| Cronfeydd heb eu neilltuo | £0 |
| Ceisiadau ar waith | £0 |

Byddai adroddiad manwl yn cael ei lunio ar ôl mis Ebrill a'i ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Llywio, gan dynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y prosiectau y mae'r Gronfa wedi'u cefnogi.

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb y CDC ar gyfer 2022/23 eto, ond roedd arwyddion y byddai'n fwy na £50,000.

Byddai Panel Grantiau CDC newydd yn cael ei benodi yn dilyn cyfarfod Fforwm Blynyddol Partneriaeth AoHNE Gŵyr ym mis Gorffennaf 2022.

**34 Cynllun Grant Tirwedd a Bioamrywiaeth Gwyr.**

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru ynghylch Cynllun Grant Tirwedd a Bioamrywiaeth Gŵyr.

Esboniwyd bod y cynllun grant, sy'n cael ei gynnal fel is-gorff i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a'i reoli yn lleol ar ran Llywodraeth Cymru, yn anelu at gefnogi amrywiaeth o fentrau gwella tirwedd a bioamrywiaeth yn AoHNE Gŵyr.

Byddai'r grant yn cael ei anelu at dirfeddianwyr, Cynghorau Cymuned a grwpiau eraill i annog a chefnogi prosiectau lle gallai enillion bioamrywiaeth ymgysylltu â'r rheini a oedd yn byw yn y gymuned leol a bod o fudd iddynt. Byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gynlluniau lle gellid dangos y budd mwyaf o ran bioamrywiaeth a budd cymunedol.

Byddai'r cynllun yn darparu cymorth grant ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- Waliau cerrig sychion
- Gosod gwrychoedd a phlannu

- Creu coetiroedd bach
- Prysgoedio
- Creu ac adfer perllannau
- Creu pyllau
- Adfer dolydd blodau gwyllt
- Creu coridor blodau gwyllt cymunedol
- Nodweddion hanesyddol bach

Byddai cyfres o nodiadau canllaw yn nodi pa safonau ac amodau a ddefnyddiwyd a ble i ddod o hyd i wybodaeth a chyngor ychwanegol.

Byddai grantiau hyd at £3,000, gyda hyd at 50% o gyllid, a gallai costau cymwys gynnwys gwaith, deunyddiau, gwaith arolygu a chynlluniau rheoli. Roedd disgwyl i'r cynllun ddechrau gwahodd ceisiadau ym mis Ebrill 2022.

Byddai ffurflen gais syml yn cael ei defnyddio i wneud cais am gyllid, gyda chyngor a chefnogaeth gan Y Tîm AoHNE. Byddai cyfnod cynnal a chadw o 10 mlynedd yn ddisgwyliedig, a byddai angen cynllun rheoli syml fel rhan o'r cais.

Byddai'r cynllun yn rhedeg fel cynllun peilot yn 2022/23, fel y gellid ei adolygu a gwneud unrhyw ddiwygiadau i wella'r canlyniadau yn y blynyddoedd canlynol.

Byddai copïau o ddogfennau'r cynllun yn cael eu dosbarthu i aelodau Panel Grant y CDC, ac aelodau Grŵp Llywio'r AoHNE.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

**35 Tirweddau Cymru - Diweddariad.**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru ar Tirweddau Cymru.

Esboniwyd mai Tirweddau Cymru (TC) yw partneriaeth y tirweddau dynodedig yng Nghymru a oedd yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â heriau cyffredin allweddol, gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur.

Roedd partneriaeth TC yn cynnwys y pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a thri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal â chysylltu cyrff tirwedd â meysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru a materion strategol Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd nodau a chylch gwaith y bartneriaeth yn cynnwys:

- Cysylltu cyrff tirwedd i weithio gyda'i gilydd ar heriau allweddol.
- Gweinyddu'r gronfa Tir Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, cronfa buddsoddi cyfalaf wedi'i rhannu ar draws pob tirwedd, gyda chyllid ar gyfer prosiectau cydweithredol ar draws tirweddau lluosog.

Roedd gweinyddiaeth Tirweddau Cymru o'r rhaglen TCLlC eisoes wedi darparu dros £8 miliwn i gefnogi mwy na 90 o brosiectau ar draws Tirweddau Dynodedig Cymru.

Yn dilyn seminar ar-lein yr hydref ym mis Hydref 2021, roedd y paratoadau'n dechrau ar gyfer seminar wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau Partneriaeth AoHNE a'r Parc Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill yn yr hydref mewn lleoliad yn ardal Gŵyr.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50pm

**Cadeirydd**